**YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU**

**Gerbron y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett, D.B.E.**

---

**MODIWL 2B - GWRANDAWIAD GWEITHDREFNOL Rhif 3**
**NODYN LLYWODRAETH CYMRU**
**Dydd Iau 16 Tachwedd 2023, 10.30 a.m.**

---

**Cyflwyniad**

1. Fel y dywedodd Llywodraeth Cymru ar ddechrau modiwl 2B, mae wedi cydweithredu'n llawn â gwaith yr Ymchwiliad. Yn gyson â'i hymrwymiad datganedig, mae'r nodyn hwn yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ym modiwl 2B a'r modiwlau eraill sydd wedi'u hagor.

**Modiwl 2B**

2. Ers agor y modiwl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cael mwy na 70 o geisiadau o dan r.9 o Reolau Ymchwiliad 2006 ("**y Rheolau**") gan gynnwys ceisiadau am ddatgeliad sylweddol iawn. Fel y mae pethau heddiw, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bron i 70 o ddatganiadau ar ffurf derfynol neu ddrafft a bydd y gweddill yn cael eu darparu yn unol â therfynau amser y cytunwyd arnynt gyda'r Ymchwiliad. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi datgelu mwy na 18,000 o ddogfennau a bydd yn ymateb yn llawn i unrhyw geisiadau pellach am dystiolaeth y gallai'r Ymchwiliad eu gwneud.

3. Mae WhatsApp a dulliau eraill tebyg o gyfathrebu wedi ymddangos yn amlwg mewn gwrandawiadau diweddar. Yn groes i baragraff 8 o'r diweddariad ar yr Ymchwiliad, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi datgelu rhywfaint o negeseuon WhatsApp a negeseuon tebyg. Yn gryno:

   (a) Ddiwedd mis Medi 2023, cytunodd yr Ymchwiliad a Llywodraeth Cymru ar y dull i'w fabwysiadu wrth reoli negeseuon WhatsApp a negeseuon tebyg yn briodol.

(b) Rhwng 3 Hydref 2023 a 3 Tachwedd 2023, mae Llywodraeth Cymru wedi datgelu negeseuon WhatsApp a thrawsgrifiadau a sgrinluniau o negeseuon testun.

(c) Wrth i'r deunydd gael ei gasglu, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatgelu negeseuon WhatsApp a negeseuon tebyg eraill. Dylid cofio bod y broses o chwilio am y deunyddiau hyn yn cymryd llawer o amser, yn defnyddio llawer o adnoddau ac, ar brydiau, yn anodd yn dechnegol. Wedi dweud hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod deunydd perthnasol yn cael ei ddarparu'n brydlon i'r Ymchwiliad.

(d) Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'r Ymchwiliad yn rheolaidd am gynnydd y broses gymhleth o gasglu negeseuon WhatsApp a negeseuon eraill gan lawer o unigolion. Yr hyn sy'n cymhlethu pethau yw'r ffaith bod rhai o'r unigolion hyn wedi gadael eu swyddi neu wedi rhoi'r gorau i weithio i Lywodraeth Cymru erbyn hyn. Wrth gwrs, bydd yn parhau i wneud hynny.

4. Yn dilyn cais Llywodraeth Cymru am eglurhad o sylwedd a ffocws ceisiadau'r Ymchwiliad, ar 25 Hydref 2023, gofynnodd yr Ymchwiliad rai cwestiynau penodol am negeseuon WhatsApp a oedd yn ddefnyddiol o ran egluro materion. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ymateb cynhwysfawr i'r cais hwnnw erbyn y dyddiad cau, sef 8 Rhagfyr 2023.

**Modiwlau eraill**

5. Er bod cyfraniad Llywodraeth Cymru i waith yr Ymchwiliad, am resymau amlwg, wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar fodiwl 2B, mae'n gyfranogwr craidd mewn pedwar modiwl arall: modiwl 1 (parodrwydd); modiwl 2 (gwneud penderfyniadau craidd gan Lywodraeth y DU); modiwl 3 (gofal iechyd) a modiwl 4 (brechlynnau, therapiwteg a thriniaethau gwrthfeirol). Yn ogystal â'i gwaith ar fodiwl 2B, ym modiwlau 2, 3 a 4, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu atebion i geisiadau'r Ymchwiliad am ddatganiadau a datgeliad sylweddol.

6. Ym modiwl 5 a chyn cais rh.9 ffurfiol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybodaeth i'r Ymchwiliad a bydd yn parhau i ddarparu cymorth o'r fath yn unol â gofynion yr Ymchwiliad.

**Dyddiedig 6 Tachwedd 2023**